WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Bronwen Morgan
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion
Swyddfeydd y Cyngor
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 618A2012 |
| **Dyddiad** | 21 Rhagfyr 2012 |
| **Tudalennau** | **1** o **4** |

Annwyl Bronwen,

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae’r llythyr hwn yn crynhoi’r casgliadau allweddol sy’n deillio o’m gwaith mewn perthynas ag adrodd ar welliannau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae gofyn i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Yn dilyn fy Llythyr Asesiad Gwella ar 5 Hydref 2012, mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag adrodd am welliant;
- fy sylwadau ar i ba raddau y gellir dibynnu ar y Cyngor; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella.

At hyn byddaf hefyd yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy’n cefnogi dulliau rheoli perfformiad ac adrodd y Cyngor dros y misoedd nesaf.

Byddaf yn crynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r gofynion statudol a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Mesur, o dan Adran 15 (7). Cyhoeddodd y Cyngor ei *Gynllun Gwella - Perfformiad* (y Cynllun) ar gyfer 2011-12 cyn y terfyn amser o 31 Hydref ac mae hefyd wedi cyhoeddi crynodeb. Mae'r fersiwn lawn a'r crynodeb ill dau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Cyngor. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg pan lansiwyd y Cynllun ac mae'r Cyngor hefyd wedi darparu dolen ar ei safle Facebook ac wedi gwahodd sylwadau drwy gyfrwng Twitter.

Mae'r Cynllun yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn yr holl ddangosyddion statudol ac yn cynnwys ffigurau perfformiad cyfredol ac ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar fy argymhellion blaenorol wrth gymharu ei berfformiad ag awdurdodau gwella eraill yng Nghymru lle y bo'n briodol. Er enghraifft, defnyddir data yn helaeth i ddangos sut mae perfformiad gwasanaethau addysg y Cyngor yn cymharu o flwyddyn i flwyddyn, a sut maent yn cymharu â gwasanaethau addysg cynghorau eraill yng Nghymru. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid i gyflawni ei amcanion gwella.

Er bod y Cynllun yn cynnwys llawer o wybodaeth, nid yw'n hawdd ei ddarllen sy'n golygu ei bod yn anodd i'r darllenydd ddeall yn hawdd pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio. Nid yw'r Cynllun yn gwneud fawr ddim defnydd o ffyrdd gwahanol o gyflwyno data, gan ddibynnu bron yn gyfan gwbl ar dablau o destun a ffigurau.

Mae'r crynodeb yn fyr iawn, ac yn y bôn mae'n rhoi rhestr o ddangosyddion perfformiad i ddinasyddion. Nid yw'r crynodeb yn egluro blaenoriaethau'r Cyngor i ddinasyddion, ac nid yw'n adlewyrchiad teg o'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn tuag at eu cyflawni.

## Nid yw *Cynllun Gwella - Perfformiad 2011/12* y Cyngor yn rhoi asesiad teg a chytbwys i ddinasyddion na gwerthusiad ystyrlon o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei amcanion gwella

Mae'r Mesur wedi bod ar waith nawr ers tair blynedd a dyma'r ail flwyddyn lle y bu'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cynllun sy'n edrych yn ôl ar berfformiad. Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012, pwysleisiais fod y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fod yn fwy hunanfeirniadol a chadarn wrth werthuso'r ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau. Mae angen i gynghorau ganolbwyntio'n fwy clir o lawer ar effaith gwasanaethau a'r canlyniadau i ddinasyddion.

Mae canlyniadau fy archwiliad o'r Cynllun yn dangos bod gan y Cyngor lawer o waith i'w wneud i ddatblygu ei drefniadau cynllunio gwelliannau. Nid yw amcanion gwella datganedig y Cyngor, y 'meysydd blaenoriaeth' sy'n eu hategu na'r canlyniadau a ddisgrifir yn ddigon clir, ac nid yw'r Cynllun yn dadansoddi perfformiad y Cyngor yn gadarn ac yn ei werthuso'n glir.

Mae'r Cynllun yn cynnwys *Asesiad Cryno* naratif ar gyfer pob amcan gwella. Mae'r naratif hwn yn cyflwyno ystod amrywiol o wybodaeth yn disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyflawni, gweithgareddau cysylltiedig yr ymgymerwyd â hwy ac a gynlluniwyd, a mesurau perfformiad dethol. Fodd bynnag, ac eithrio *Gwella cyfleoedd dysgu* o bosibl, nid yw'r naratif yn cynnwys datganiadau gwerthuso cyffredinol o gynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella. Mater i'r darllenydd yw llunio ei farn ei hun ar pa un a yw'r amcanion gwella yn cael eu cyflawni.

Yn y tablau o fesurau perfformiad a ddefnyddiwyd i ddangos *Y gwahaniaethau a wnaethom,* mae data perfformiad sylfaenol a thargedau yn aml ar goll, sy'n golygu ei bod yn anodd asesu a yw'r perfformiad a ddisgrifir gan y Cyngor yn dda neu'n wael, neu yn unol â disgwyliadau. Er enghraifft, o ran ei amcan gwella ar gyfer *amgylchedd diogel o ansawdd uchel*, noda'r Cynllun fod y Cyngor wedi cynhyrchu 61 o dunelli yn llai o $CO_2$ drwy ei raglen effeithlonrwydd fflyd cerbydau. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw ddata arall mewn perthynas â pherfformiad mewn blynyddoedd blaenorol nac mewn perthynas â thargedau a bennwyd, sy'n golygu na all y darllenydd asesu a yw hyn yn adlewyrchu perfformiad da neu wael.

Mae dulliau adrodd mewn rhai meysydd yn anghyson ac yn ddryslyd. Er enghraifft, noda'r Cyngor yn y Cynllun ei fod wedi cyflawni gwelliant o 27 y cant yn nifer yr asesiadau gofalwyr a gynigir, a cheir graff yn dangos mai ef yw'r Cyngor sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru mewn perthynas â'r mesur hwn. Fodd bynnag, noda'r crynodeb, sy'n dyfynnu'r un ffigur, nad yw'r Cyngor yn cyrraedd ei darged mewn perthynas â'r mesur hwn, gan nodi bod y Cyngor yn y 17eg safle o ran perfformiad yng Nghymru.

Lle y pennwyd targedau, nid ydynt yn cynnig her gyson ac ni cheir eglurhad ohonynt er mwyn rhoi perfformiad yn ei gyd-destun. Er enghraifft, gosodwyd targed 2011-12 i gynnal adolygiadau amserol o gynlluniau plant ar gyfer plant mewn angen yn is na pherfformiad gwirioneddol y Cyngor yn y flwyddyn flaenorol, ac yn is na chyfartaledd Cymru, heb roi esboniad am hynny.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Rwyf eisoes wedi nodi fy mhryderon nad yw cynllun gwella'r Cyngor yn gwahaniaethu digon rhwng camau gweithredu â blaenoriaeth a 'materion bob dydd', sy'n golygu nad yw'n glir beth mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i wella ei wasanaethau, na sut y bydd hyn yn effeithio ar fywydau ei ddinasyddion. Mae'n amlwg bod y gwendid hwn a nodwyd wedi cyfrannu at y ffaith na all y Cyngor ddarparu asesiad a gwerthusiad dibynadwy i ddinasyddion o'i berfformiad o ran cyflawni ei amcanion gwella dros gyfnod 2011-12.

Mae'r Cyngor yn wynebu her sylweddol ac uniongyrchol i nodi ei ganlyniadau â blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2013-2016 ac arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Integredig Sengl newydd gyda'i bartneriaid, yng nghyd-destun y blaenoriaethau gwleidyddol diwygiedig sy'n deillio o'r weinyddiaeth newydd. Wrth ddatblygu ei gynlluniau, mae angen i'r Cyngor wneud mwy o waith i:

- nodi ei flaenoriaethau dros y tymor canolig a gwerthuso eu goblygiadau ariannol a'u goblygiadau o ran y gweithlu ac asedau fel y gellir eu costio a'u hariannu; a
- adolygu terminoleg amcanion gwella, ynghyd â natur eu camau gweithredu a mesurau llwyddiant cysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod wedi'u mynegi a'u blaenoriaethu'n glir, a'u bod yn galluogi dinasyddion lleol i fonitro'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor yn ei wneud i'w bywydau.

Nodais fy nghynigion ar gyfer gwella yn y meysydd hyn yn fy Llythyr Asesiad Gwella blaenorol i'r Cyngor, dyddiedig 5 Hydref 2012. Caiff rhai cynigion newydd ar gyfer gwella eu gwneud yn y llythyr hwn. Byddaf yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Dylai *Cynllun Gwella – Perfformiad* y Cyngor, a'r crynodeb ar gyfer y cyhoedd ddarparu asesiad mwy teg a chytbwys o'i berfformiad. |
| C2 | Mae angen i'r Cyngor werthuso'n well ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion gwella. Dylai edrych y tu hwnt i adrodd ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu a mesurau yn unig, gan ddadansoddi tystiolaeth ehangach er mwyn gallu pennu'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion, a darparu darlun mwy cyflawn o berfformiad y Cyngor. |

Yn gywir



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Copi: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau